University of South Wales
Prifysgol De Cymru

SAFONAU'R IAITH GYMRAEG: POLISI DEFNYDDIO'R GYMRAEG YN FEWNOL AT DDIBENION HYRWYDDO A HWYLUSO'R DEFNYDD OHONI

Hydref 2022

Paratowyd yn unol â gofynion

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017

1. Cyflwyniad

1.1. Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg trwy is-ddeddfwriaeth (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg). Rhestrir y safonau sy'n berthnasol i Brifysgol De Cymru yn yr 'Hysbysiad Cydymffurfio- Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011'.

1.2. Cynhyrchwyd y ddogfen hon i gydymffurfio gyda Safon 105, sy'n gosod dyletswydd ar y Brifysgol i ddatblygu a chyhoeddi polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol at ddibenion hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r iaith.

1.3. Mae dyletswydd statudol ar y Brifysgol i arddangos ei hymrwymiad at hybu defnydd o'r iaith Gymraeg yn y Coleg, dan y Safonau Gweithredol. Bydd y Brifysgol yn hybu'n weithredol gyfleoedd i cydweithwyr a myfyrwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol. Bydd y gwaith yn cael ei arwain gan Uned Gymraeg y Brifysgol, a bydd gan Grŵp Llywio'r Gymraeg trosolwg dros y gwaith hwnnw.

1.4. Mae copi o'r Hysbysiad Cydymffurfio, a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, ar gael yma.

2. Hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg: Cydweithwyr

2.1. Canllawiau ar gyfer cydweithwyr

Er mwyn hyrwyddo a hwyluso'r gwaith o weithredu'r Safonau, mae Prifysgol De Cymru wedi cyhoeddi cyfres o ganllawiau ar gyfer cydweithwyr, ar fewnrwyd y Brifysgol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwybodaeth gyffredinol a chefndir y Safonau
- Ateb y ffôn (yn cynnwys clipiau sain)
- Canllawiau Brandio
- Gohebiaeth
- Geiriadur termau a geirfa gyffredinol
- Trefnu a chynnal cyfarfodydd
- Digwyddiadau a darlithoedd cyhoeddus
- Hawliau cydweithwyr a myfyrwyr
- Hyfforddi cydweithwyr
- Canllawiau fideo
- Canllawiau Cyfieithu Prifysgol De Cymru

Cafodd pecyn gwybodaeth ei gylchredeg ymhlith y rheolwyr i gyd cyn rhoi Safonau'r Gymraeg ar waith er mwyn rhoi trosolwg o'r themâu a'r gofynion ac i sicrhau bod timau arwain ledled y Brifysgol yn ymwybodol o'r Safonau. Mae Uned y Gymraeg hefyd wedi mynychu diwrnodau datblygu adrannau a Fforymau Uwch Reolwyr i roi cyngor a chanllawiau pellach i cydweithwyr.

Lansiwyd cwrs ar-lein Ymwybyddiaeth Safonau'r Gymraeg ei datblygu ar gyfer cydweithwyr er mwyn iddynt ddeall gofynion o dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 6) 2017.

2.2. **Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Mae'n ofynnol i Brifysgol De Cymru asesu'r effaith bosibl ar unigolion â nodweddion gwarchodedig, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r Gymraeg wedi bod yn rhan o'r asesiad hwn ers sawl blwyddyn ac fe'i hystyrir yn ystod y broses o ystyried, creu a diwygio polisïau, strategaethau, projectau, a chynnal gweithgareddau ailstrwythuro a diswyddo.

Gofynnir yn echblyg i'r sawl sy'n cwblhau'r ffurflenni asesu a fyddai'r gwaith yn cael effaith negyddol neu gadarnhaol ar y Gymraeg yn y Brifysgol. Mae'n ofynnol dan yr asesiad i ystyried nifer y siaradwyr Cymraeg (cydweithwyr a myfyrwyr), y ddarpariaeth Gymraeg a'r gwasanaethau sydd ar gael.

Ers cyflwyno Safonau'r Gymraeg, mae'r Brifysgol wedi adolygu a chryfhau ei ffurflen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn annog cydweithwyr i ystyried yr iaith Gymraeg a'r effaith ar y Gymraeg mewn cyd-destun ehangach.

Mae'n rhaid cwblhau ffurflenni Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (AEG) wrth ystyried, cynhyrchu a diwygio polisïau, strategaethau, projectau, ac wrth gynnal gweithgareddau ailstrwythuro a diswyddo. Mae'r asesiadau'n cael eu hanfon i'r Tîm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac Uned y Gymraeg i'w hystyried a'u cymeradwyo, cyn iddyn nhw wedyn gael eu cyflwyno i bwyllgor perthnasol y Brifysgol. Mae'r pwyllgor yn ystyried yr AEG ynghyd â'r papur, a phan fydd wedi ei gymeradwyo, caiff yr AEG ei anfon at Grŵp Llywio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Brifysgol, i'w nodi.

2.3. **Fy ngwybodaeth**

Prifysgol De Cymru oedd y sefydliad cyntaf yng Nghymru i gynnig rhyngwyneb iTrent dwyieithog i'w cydweithwyr, sy'n cael ei adnabod yn fewnol fel 'Fy Ngwybodaeth'.

Gall cydweithwyr felly weld eu proffil yn Gymraeg neu yn Saesneg, gweld a diweddaru eu manylion personol; bwcio gwyliau blynyddol; diweddaru eu sgiliau a chofnodi gweithgareddau datblygu yn eu dewis iaith.

Mae'r Brifysgol hefyd wedi ymrwymo i ddarparu system ddwyieithog lle gall cydweithwyr hawlio treuliau a chostau yn eu dewis iaith.

2.4. **Cofnodi Dewis Iaith a Sgiliau Iaith**

Gall cydweithwyr bellach gofnodi a diweddaru eu dewis iaith a'u sgiliau Cymraeg yn Fy Ngwybodaeth. Mae hyn yn ofyniad adrodd dan y Safonau, ond mae'r Brifysgol hefyd wedi datblygu dull o adnabod gwahanol lefelau rhuglder mewn gwahanol gyd-destunau, sy'n rhoi darlun cliriach o'r sgiliau o fewn gwahanol adrannau a chyfadrannau ac sydd o gymorth i reolwyr wrth iddynt ystyried sgiliau Cymraeg eu tîm.

Gall cydweithwyr gofnodi eu sgiliau Cymraeg dan y tab 'Dysgu> Gweithgareddau> Gweld fy mhroffil talent> Ychwanegu sgil neu arbenigedd' a rhoi ymatebion unigol ac amrywiol ar gyfer 'Darllen ac Ysgrifennu', 'Siarad a Gwrando', ac 'Ysgrifennu'. Mae gan bob sgil raddfa 0-5 a nodir y disgrifiad ar gyfer pob lefel mewn blwch testun dan y sgôr.

Anfonir e-bost deirgwaith y flwyddyn gan Gydlynydd y Gymraeg o bob adran neu gyfadran yn gofyn am unrhyw cydweithwyr newydd i gwblhau eu cofnod.

2.5. **Pwyllgorau a chynrychiolaeth**

Mae nifer o strwythurau ar waith i roi cyfle i cydweithwyr a myfyrwyr fynegi pryderon neu drafod unrhyw faterion yn ymwneud â chydymffurfiaeth o ran y Gymraeg a/neu ddatblygiadau yn y Brifysgol. Mae rhestr o'r amrywiol bwyllgorau isod, dan adran 4: Monitro a Gwerthuso.

2.6. **Gwasanaethau Cyfieithu**

Mae Uned y Gymraeg yn cynnig gwasanaeth cyfieithu mewnol, am ddim, i gydweithwyr y brifysgol. Bydd y mwyafswm geiriau'n amrywio o dro i dro, yn dibynnu ar adnoddau ac ymrwymiadau cydweithwyr. Mae templedi ar gyfer brawddegau a ddefnyddir yn aml ar gael ar dudalennau Safonau'r Gymraeg ar fewnrwyd y Brifysgol, i helpu ein cydweithwyr i

ddefnyddio'r Gymraeg ar hap. Mae templedi a rhestrau geirfa a therminoleg ar gael i'w defnyddio ar y cyfryngau cymdeithasol.

2.7. **Gwersi Cymraeg**

Mae cyrsiau Cymraeg, am ddim, wedi eu cynnig i gydweithwyr PDC ers sawl blwyddyn. Mae'r cyrsiau hyn ar gael i bob aelod o deulu PDC, ar sawl lefel rhuglder, o ddechreuwyr i ddysgwyr safon uwch. Mae cydweithwyr yn cael eu hannog i gofnodi unrhyw gyrsiau maen nhw wedi eu dilyn yn adran 'Sgiliau' Fy Ngwybodaeth.

Mae ein cydweithwyr yn cael eu hannog i gofrestru ar, a chwblhau, cwrs 'Cymraeg Gwaith' ar-lein, sydd ar gael am ddim drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol.

Yn ogystal, mae cydweithwyr academaidd yn cael cyfle i ddilyn cwrs wedi ei deilwra at anghenion cydweithwyr academaidd, yn canolbwyntio ar ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a datblygu eu terminoleg mewn meysydd penodol. I ddod o hyd i gwrs anogir cydweithwyr i gysylltu â'r Swyddog Datblygu Kathy.Jones@decymru.ac.uk

2.8. **Cymorth Iaith Anffurfiol**

Mae Cymraeg@Crawshays yn rhoi cyfle i gydweithwyr o bob lefel rhuglder fynd i sesiwn anffurfiol, dan arweiniad Uned y Gymraeg, i ymarfer a defnyddio'u Cymraeg, a chymdeithasu a rhwydweithio gyda siaradwyr Cymraeg eraill o wahanol rannau o'r Brifysgol, ac i drafod unrhyw ddatblygiadau neu faterion gyda thîm Uned y Gymraeg. Bydd pa mor aml y mae'r sesiynau hyn yn digwydd yn cael ei adolygu a byddant yn cael eu hyrwyddo ar fewnrwyd y Brifysgol.

Bydd Menter Iaith Casnewydd, mewn cydweithrediad â'r Brifysgol, yn cynnal sesiwn debyg i siaradwyr Cymraeg ar Gampws Dinas Casnewydd.

2.9. **Cyfathrebu a digwyddiadau**
Bydd cylchlythyr dwyieithog yn cael ei gylchredeg pob tymor, yn cynnwys storïau am brojectau ymchwil Cymraeg, digwyddiadau sydd wedi bod ac sydd ar ddigwydd, a chyfleoedd eraill ar gyfer siaradwyr Cymraeg, yn fewnol ac yn allanol.

Bydd digwyddiad yn cael ei gynnal pob tymor, ar gyfer cydweithwyr a myfyrwyr, e.e. darlith gyhoeddus yn canolbwyntio'n benodol ar gynnwys Cymraeg neu Gymreig, ac yn rhoi cyfle i cydweithwyr a myfyrwyr gwrdd â rhwydweithio. Cynhelir hefyd ddigwyddiadau dathlu a chymdeithasol i hwyluso rhwydweithio, e.e. ar Ddydd Gŵyl Dewi.

3. Hyrwyddo'r Gymraeg: Myfyrwyr

3.1. Bob tymor, mae'r Brifysgol yn hyrwyddo ymgyrch #Maegenihawl Comisiynydd y Gymraeg ac mae wedi darparu canllawiau a manylion pellach i fyfyrwyr ynghylch eu hawliau ar ei gwefan.

3.2. Mae'r Brifysgol hefyd yn ymrwymedig at ddarparu a hyrwyddo cyfleoedd i fyfyrwyr ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg. Bydd y canlynol yn cael eu gweithredu i hyrwyddo'r Safonau ymhlith myfyrwyr:

- Stori ar fewnrwyd y myfyrwyr
- Cyfres o ffotograffau a phosteri ar sgriniau ar bob campws
- Eitem sefydlog ar Bwyllgor Cangen Coleg Cymraeg Cenedlaethol Prifysgol De Cymru
- Fforymau myfyrwyr ar bob campws, pob tymor
- Gwybodaeth yn llawlyfrau cyrsiau myfyrwyr
- Cyhoeddiad cyn pob arholiad ei bod yn bosibl sefyll yr arholiad yn Gymraeg
- Bydd gwybodaeth ac adnoddau ar gael ynghylch y Safonau yn Undeb y Myfyrwyr.

3.3. Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth am eu hawliau ymhlith myfyrwyr a hyrwyddo'r cyfleoedd Cymraeg sydd ar gael, bydd y Brifysgol hefyd yn sicrhau bod cydweithwyr yn ymwybodol o hawliau myfyrwyr. Bydd y canlynol yn cael eu gweithredu i godi ymwybyddiaeth ac i sicrhau bod cydweithwyr yn ymwybodol o hawliau myfyrwyr:

- Canllawiau ar fewnrwyd y cydweithwyr ynghylch hawliau myfyrwyr a cydweithwyr
- Negeseuon ac erthyglau oddi wrth dîm Cyfathrebu y Brifysgol (a anfonir at bob aelod cydweithwyr)
- Negeseuon allweddol yn cael eu cylchredeg ymhlith cydweithwyr drwy Gydlynwyr y Gymraeg.
- Bydd e-bost yn cael ei anfon ar ddechrau pob blwyddyn academaidd at bob Deon a Phenaethiaid Pwnc a'i rhaeadru i'w cydweithwyr academaidd yn nodi y gall unrhyw fyfyriwr gyflwyno asesiadau yn Gymraeg. Bydd canllawiau a chyngor yn cael eu darparu hefyd, yn ôl y gofyn.

3.4. Bydd Cangen Cymraeg Cenedlaethol Prifysgol De Cymru yn cydweithio â Gyrfaoedd PDC i gynnal digwyddiad bob blwyddyn, sy'n gysylltiedig â chyflogadwyedd Cymraeg a dwyieithog. Bydd hyn yn ailadrodd y galw am sgiliau dwyieithog yn y gweithle ac yn sicrhau bod myfyrwyr yn cael cyfle i rwydweithio gyda darpar gyflogwyr.

4. Monitro a Gwerthuso

4.1. Grŵp Llywio'r Gymraeg sy'n gyfrifol am weithredu a monitro'r Safonau o fewn Grŵp y Brifysgol dan gadeiryddiaeth Ysgrifennydd y Brifysgol. Mae gan y grŵp rôl benodol yn y gwaith o ddatblygu a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg yn y Brifysgol drwyddi draw.

4.2. Mae gan holl Gyfadrannau ac Adrannau'r Brifysgol Gydlynydd y Gymraeg sy'n gyfrifol am roi cyngor a thrafod gofynion y Safonau yn eu hardaloedd. Mae Cydlynwyr y Gymraeg yn cwrdd yn rheolaidd. Swyddog y Gymraeg sy'n cadeirio'r cyfarfodydd.

4.3. Mae Cangen y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynnwys cynrychiolwyr o bob cyfadran ac adran, gan gynnwys cynrychiolwyr o blith y myfyrwyr, ac maent yn trafod a chynghori'r Pwyllgor Cyfoethogi Dysgu ac Addysgu ynghylch cyfeiriad a materion cyfrwng Cymraeg. Mae Cadeirydd Pwyllgor y Gangen yn aelod o'r Pwyllgor Cyfoethogi Dysgu ac Addysgu, sy'n adrodd i Fwrdd Academaidd y Brifysgol. Mae gan y Bwrdd Academaidd hefyd gynrychiolydd dynodedig ar gyfer y Gymraeg.

4.4. Gofynnir i bob adran a chyfadran gynhyrchu cynllun gweithredu, mewn trafodaeth ag Uned y Gymraeg. Cytunir ar gamau gweithredu ac mae adroddiadau cynnydd yn cael eu nodi ymhob un o gyfarfodydd Cydlynwyr y Gymraeg.

4.5. Pan yn briodol mae adroddiad yn cael ei gyflwyno i Grŵp Llywio'r Gymraeg ynghylch unrhyw faterion sy'n codi o gyfarfodydd Cydlynwyr y Gymraeg.

4.6. Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu pob dwy flynedd gan Grŵp Llywio'r Gymraeg.

Awdur	Sara Maynard (Swyddog Iaith Gymraeg)
Dosbarthiad Gwybodaeth	Cyhoeddus
Fersiwn	2.0
Statws	Wedi'i gyhoeddi
Dyddiad Effeithiol	Hydref 2022
Dyddiad Adolygu	Hydref 2024